**Cofnodion o gyfarfod arbennig o Gyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd am 18:30 y.h. Nos Fawrth, 12 Tachwedd 2019 yn Y Sefydliad Coffa, Llanrug.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Philip Roberts (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Goronwy Hughes, Clifford Williams, Hefin Jones, Cemlyn Jones, Haf Williams, Meirwen Lloyd, Iola Parry, Gwion Llwyd, Beca Brown

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Richard Robinson

**Clerc:** Meirion Jones

**509. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso i bawb i gyfarfod arbennig o'r cyngor cymuned a diolchodd i bawb am eu presenoldeb.

**510. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd ymddiheuriadau fel a nodir uchod

**511. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w datgan fel yn briodol

**512. I dderbyn cofnodion o gyfarfod a gynhaliwyd 22 Hydref 2019.**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**513. I ystyried, derbyn neu wrthod mewn egwyddor, cynnig o dir a dderbyniwyd gan Gyngor Cymuned Llanrug, ar yr amod y byddai Cyngor Cymuned Llanrug yn cefnogi cais cynllunio arfaethedig i adeiladu eiddo domestig yn Llanrug.**

Eglurodd y Cadeirydd bwrpas y cyfarfod arbennig yma ac fe amlinellodd y sefyllfa.

Yn dilyn hyn cafodd pob aelod presennol gyfle i fynegi eu barn ar y cynnig.

**Penderfynwyd:**

a) Ar ddiwedd y cyfnod sylwadau cafwyd pleidlais a penderfyniad unfrydol y cyngor oedd i beidio a derbyn y cynnig;
b) Y Clerc y hysbysu'r cynigydd o hyn

**514. Sylwadau ar gais i gyfyngu ar gyflymder arfaethedig o 40mya**

Adroddwyd fod argymhelliad wedi dod i law gan Gyngor Gwynedd yn hysbysu eu bod yn bwriadu ehangu'r pellter ble ma cyflymder o 40 m.y.a. ar y ffordd A4086 allan o Llanrug am gyfeiriad Caernarfon. Roedd Cyngor

Gwynedd yn gofyn am sylwadau'r Cyngor Cymuned, prun ai oedd y cefnogi neu wrthwynebu'r cynllun.

**Penderfynwyd:**

- **a)** Cefnogi'r cais i ymestyn yr ardal 40mya yn unol ac argymhelliad Cyngor Gwynedd;
- **b)** Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd o'r penderfyniad;
- **c)** I atgoffa Cyngor Gwynedd o'r hyn a drafodwyd ac a addawyd yn dilyn cyfarfod gyda swyddog o'r adran briffyrdd yn dilyn cyfarfod a gynhaliwyd parthed materion yn ymwneud a cyflymder traffig wrth ddod fewn i Llanrug.

Daeth y cyfarfod i ben am 19:22

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: 19 Tachwedd 2019